

# Rhondda Cynon Taf CYLLIDEB 2019/20

[www.rctcbc.gov.uk/  
llyfrcyllideb](http://www.rctcbc.gov.uk/llyfrcyllideb)



## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF – DARLUN**

Cafodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ei ffurfio ym 1996 o dair o ardaloedd yr hen Forgannwg Ganol. 239,127 o bobl sy'n byw yma, ac o ran y boblogaeth felly, dyma'r trydydd awdurdod unedol mwyaf yng Nghymru. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cwmpasu arwynebedd o 424km<sup>2</sup> yng Nghymoedd y De, yn ymestyn o Fannau Brycheiniog i'r gogledd i ddinas Caerdydd i'r de.<sup>1</sup>

Mae'r tair ardal ddaearyddol sy'n ffurfio Rhondda Cynon Taf yn rhannu ystod o nodweddion economaidd-gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys lefelau uchel o dlodi cymharol ac o allgau cymdeithasol, yn enwedig yng nghymoedd gogleddol y sir. Gan y rhain mae rhai o'r dangosyddion amddifadedd uchaf yn y Deyrnas Unedig.

Caiff gwasanaethau'r Cyngor eu rheoli a'u cynnal gan ei gyfadrannau sy'n rheoli a chydlynu gwasanaethau cysylltiedig. Mae pedair cyfadran yn strwythur cyfredol y Cyngor:

Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant sy'n cynnal gwasanaethau cymorth i ysgolion, Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad, Derbyn Disgyblion a Llywodraethu, Mynychu'r Ysgol a Lles, Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, Rheoli Asedau a Data, Gwasanaethau Arlwyyo a gwasanaethau gwella ysgolion a her mewn partneriaeth â Chonsortium Canolbarth y De.

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Darparu Gwasanaethau i Oedolion (Gwasanaethau Gofal Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol); Gwasanaethau Plant; Gwasanaethau Tai Cymunedol; Iechyd y Cyhoedd ac Amddiffyn; Gwasanaethau Hamdden, Cefn Gwlad a Diwylliannol (gan gynnwys Theatrau); Atyniadau Ymwelwyr a Threftadaeth; Gwasanaethau Dysgu Cymunedol; Llyfrgelloedd; Gwasanaethau Cymraeg; Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid; a Rhaglenni Cyflogaeth.

---

<sup>1</sup> (239,127) – amcangyfrif canol blwyddyn 2017

Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen

Darparu Gwasanaethau Rheng-flaen, gan gynnwys; Priffyrdd; Trafnidiaeth; Prosiectau Strategol; Gofod y Strydoedd (gan gynnwys Gwastraff a Glanhau'r Strydoedd); a Gwasanaethau Adfywio a Chynllunio a Strategaethau Materion Tai.


Prif Weithredwr

Darparu swyddogaethau Adnoddau Dynol, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar draws yr awdurdod; gwasanaethau rheng flaen Gofal i Gwsmeriaid, Gweinyddu Budd-dal Tai a Threth y Cyngor; a gwasanaethau cymorth allweddol Cyllid, TGCh a Gwasanaethau Digidol, Rheoli Ystadau Corfforaethol a Chaffael.

**Refeniw'r Gronfa Gyffredinol Math o wariant 2019/20**

<b>2018/19</b>		<b>2019/20</b>
<b>Cyllideb</b>		<b>Cyllideb</b>
<b>£ miliwn</b>		<b>£ miliwn</b>
286.661	Gweithwyr	301.988
29.053	Adeiladau/Safleoedd	29.876
24.993	Cludiant	25.537
74.756	Cyflenwadau a Gwasanaethau	80.737
132.617	Trydydd parti	134.591
95.790	Taliadau Trosglwyddo	88.490
5.931	Gwasanaethau Cymorth	5.088
26.976	Ariannu Cyfalaf	25.640
<b>676.777</b>	<b>Cyfanswm y Gwariant</b>	<b>691.947</b>
<b>(205.177)</b>	<b>Cyfanswm yr incwm</b>	<b>(208.478)</b>
<b>471.600</b>	<b>CYLLIDEB REFENIW NET</b>	<b>483.469</b>
	Ariannwyd gan:	
(288.556)	Grant Cymorth Refeniw	(290.956)
(75.620)	Ardrethi Annomestig	(76.383)
(1.022)	Cronfeydd wrth gefn	(1.537)
0	Grantiau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant	(2.600)
<b>106.402</b>	<b>I'W DALU GAN DALWYR TRETH Y CYNGOR</b>	<b>111.993</b>

### Sut y caiff yr arian ei wario – Cyllideb 2019/20




**RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD Y CYNGOR**


CYFADRAN	CYLLIDEB		
	2019/20	2020/21	2021/22
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
<b>Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant</b>			
Gwasanaethau Cymdeithasol – Oedolion a Phlant	3.667	2.250	1.650
Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.	4.441	0.570	0.570
<b>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</b>			
Ysgolion	19.313	0.389	0.146
Rhaglen Gyfalaf Atodol - Cyfanswm	6.886	4.900	4.900
<b>Adran y Prif Weithredwr</b>			
Gwasanaethau Cyllid a Digidol	0.707	0.700	0.700
Eiddo'r Cyngor	1.921	1.050	1.050
<b>Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen</b>			
Adfywio a Chynllunio	36.333	4.429	0.740
Tai'r Sector Preifat	7.912	6.268	5.368
Gwasanaethau Technegol y Priffyrdd	15.032	7.084	5.835
Prosiectau Strategol	10.934	1.825	0.325
Strategaeth Gwastraff	5.620	0.247	0.000
Cerbydau	5.824	1.743	1.573
Adeiladau	0.100	0.100	0.100
<b>CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF</b>	<b>118.690</b>	<b>31.555</b>	<b>22.957</b>

\* Mae amcangyfrifon 2019/2020 yn cynnwys amcangyfrif o lithriant o 2018/2019, a chynlluniau ychwanegol â chymorth grant oedd yn hysbys adeg cytuno'r rhaglen tair blynedd.

### Rhaniadiad yn ôl Cyfadran Gwariant Cyfalaf 2019/20



### Ariannu Rhaglen Gyfalaf 2019/20




**REFENIW'R GRONFA GYFFREDINOL: GWASANAETHAU SY'N CAEL EU  
CYNNAL**

<b>Cyllideb b 2018/19</b>		<b>Cyllideb 2019/20</b>
<b>£ miliwn</b>		<b>£ miliwn</b>
	<b><u>Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant</u></b>	
80.303	Gwasanaethau i Oedolion	86.802
47.680	Gwasanaethau i Blant	47.644
3.083	Trawsnewid	3.228
16.026	Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.	15.824
<b>147.092</b>		<b>153.498</b>
	<b><u>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant</u></b>	
26.712	Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (heb eu dirprwyo)	27.892
148.819	Ysgolion Dirprwyedig	151.606
<b>175.531</b>		<b>179.498</b>
	<b><u>Adran y Prif Weithredwr</u></b>	
0.399	Prif Weithredwr	0.395
2.852	Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	2.859
6.654	Adnoddau Dynol	7.047
1.644	Gwasanaethau Cyfreithiol	1.622
9.536	Gwasanaethau Cyllid a Digidol	10.660
3.910	Eiddo'r Cyngor	3.229
<b>24.995</b>		<b>25.812</b>
	<b><u>Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng- flaen</u></b>	
2.989	Gwasanaethau Ffyniant a Datblygu	2.912
51.971	Gwasanaethau Rheng Flaen	53.897
<b>54.960</b>		<b>56.809</b>
<b>402.578</b>	<b>Cyfanswm Cyllideb Grwpiau</b>	<b>415.617</b>
	<b><u>Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</u></b>	
19.947	Ariannu Cyfalaf	18.917
11.790	Ardollau	12.384
13.105	Amrywiol	11.815
0.400	Rhyddhad Ardreth Annomestig	0.400
23.780	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	24.336
<b>69.022</b>	<b>Cyfanswm Cyllidebau'r Awdurdod Cyfan</b>	<b>67.852</b>
<b>471.600</b>	<b>CYFANSWM CYLLIDEB REFENIW</b>	<b>483.469</b>

\* Mae ffigurau 2018/2019 yn cael eu nodi er gwybodaeth. Gall newidiadau o ran gofynion cyfrifyddu a chyfrifoldebau swyddogaethol amrywio'r darlun wrth gymharu blynyddoedd.



## Rhaniad y Gyllideb Gwariant Refeniw 2019/20



## Rhai ffeithiau allweddol o ran cyllideb 2019/20 y Cyngor

- Cynnydd o 0.8% yn y cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer Rhondda Cynon Taf.
- Parhau i dargedu unrhyw adnoddau sydd ar gael i wasanaethau blaenoriaeth uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.
- Cynnydd o 3.60% yn Nhreth y Cyngor (65c yr wythnos ar gyfer eiddo Band A)
- Cyllid priodol yn cael ei roi yn ei le ar gyfer tâl, costau heb fod yn gyflogau, cyllid corfforaethol, ardollau a beichiau ychwanegol a osodir ar y Cyngor.
- Cynnydd o £5.2 miliwn ar gyfer ysgolion (sy'n gynydd o 3.5%).
- Cronfa Cyfalaf wrth gefn yn parhau i fod dros £10 miliwn (£10.498 miliwn)
- Arbedion effeithlonrwydd sylweddol ar draws holl wasanaethau (£6.121 miliwn)
- Defnyddio £1.537 miliwn o gronfeydd wrth gefn (Cronfa Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a Chronfa Trawsnewid Gwasanaeth) fel cyllid trosiannol a £2.6 miliwn o arian untro a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi pwysau ar gyllid Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau i Blant.
- Proses ymgynghori â chyllideb benodol, gan gynnwys efelychydd cyllideb, achlysuron ymgysylltu â chanol tref a hyrwyddo hyn trwy gyfryngau cymdeithasol.

### **Cyfadrn y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant**

Uned B1, Tŷ Elái,  
Ystad Ddiwydiannol Dinas  
Isaf (Dwyrain)  
Tonypandy  
CF40 1NY

Tŷ Trevithick  
Abercynon  
Aberpennar  
CF45 4UQ

Ffôn: (01443) 442100

Ffôn: (01443) 744000

### **Prif Swyddfa Gwasanaethau Addysg a Chynwysiant**

Tŷ Trevithick  
Abercynon  
Aberpennar  
CF45 4UQ

Ffôn: (01443) 744000

### **Pencadlys Adran y Prif Weithredwr**

Tŷ Bronwydd  
Bronwydd  
Y Porth  
CF39 9DL

Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r  
Cambrian  
Cwm Clydach,  
Tonypandy  
CF40 2XX

Ffôn: (01443) 680500

Ffôn: (01443) 424000

### **Cyfadrn Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen**

Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
  
Cwm Clydach, Tonypandy  
CF40 2XX

Tŷ Glantaf  
Uned B23, Ystad  
Ddiwydiannol Trefforest  
Pontypridd  
CF37 5TT

Ffôn: (01443) 424000

Ffôn: (01443) 425001

Tŷ Sardis  
Heol Sardis  
Pontypridd  
CF37 1DU

Ffôn: (01443) 494700